Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Asesiad Amgylcheddol Strategol Gwirfoddol (AAS) o Strategaeth *Coetiroedd i Gymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru

Crynodeb annhechnegol o'r Adroddiad Amgylcheddol

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Crynodeb annhechnegol

Nod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yw hybu datblygiad cynaliadwy trwy sicrhau bod y llywodraeth yn ystyried yr amgylchedd wrth lunio polisi, cynllun neu raglen i'w gweithredu. Adroddiad AAS ar gyfer strategaeth *Coetiroedd i Gymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r ddogfen hon.

Mae strategaeth *Coetiroedd i Gymru* (SCiG) yn gosod blaenoriaethau coedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru tan 2051. Mae gan goetiroedd a choed yng Nghymru'r potensial i gyfrannu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) at ansawdd cyffredinol yr amgylchedd ar lefel cenedlaethol. Her bwysig yw taro cydbwysedd da rhwng manteision economaidd coedwigaeth wrth gynnal amgylchedd o safon uchel a chyfrannu at ansawdd bywyd poblogaeth Cymru. Gall arfer coedwigaeth ddrwg greu sefyllfaoedd amgylcheddol megis erydu pridd a draenio anaddas. I'r gwrthwyneb, gall arfer coedwigaeth dda ynghyd â pholisi coedwigaeth wedi ei gynllunio'n dda, gyfrannu'n sylweddol at wella'r amgylchedd, trwy gynnig cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth, cynnyrch ac ynni coed adnewyddadwy; cyfleoedd hamdden a thirluniau ar gyfer iechyd a lles, a thrwy gyfrannu at reolaeth dda o ansawdd a chyflenwad dŵr.

Cyhoeddwyd y SciG am y tro cyntaf yn 2001 ac mae nawr yn cael ei adolygu. Mae'r Adroddiad Amgylcheddol hwn yn cynnig asesiad o effaith amgylcheddol posibl y strategaeth ddiwygiedig.

Prif amcanion Coetiroedd i Gymru

Gôl eithaf y strategaeth ddiwygiedig yw sicrhau y bydd:

> *"Cymru yn cael ei chydnabod am ei choetiroedd o safon uchel sy'n gwella'r tirlun, yn briodol i'r amgylchiadau lleol ac sydd â chyfuniad amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Bydd y rhain yn:*
> - *cynnig manteision cymdeithasol a chymunedol go iawn, yn lleol ac yn genedlaethol;*
> - *cefnogi diwydiannau wedi eu sefydlu yn y coetiroedd; ac yn*
> - *cyfrannu at amgylchedd o well safon trwy Gymru gyfan."*

Thema sylfaenol y strategaeth yw:

- **Coetiroedd a Choed Cymru** - gwneud newidiadau i'n stoc coetiroedd a choed er mwyn iddynt gynnig y manteision gorau i Gymru

Ar ben hyn, adeiledir pedair thema bellach:

- **Ymateb i newid hinsawdd** – ymdopi â newid hinsawdd, a helpu i leihau ein hôl troed carbon
- **Coetiroedd ar gyfer pobl** – cwrdd ag anghenion iechyd, addysg a swyddi lleol
- **Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig** - cefnogi diwydiannau coetiroedd arloesol a medrus sy'n cyflenwi cynnyrch adnewyddadwy o Gymru

- **Ansawdd amgylcheddol** - gwneud cyfraniad cadarnhaol i fioamrywiaeth, tirlun a threftadaeth, a lleihau pwysau amgylcheddol eraill.

O dan y themâu hyn, mae'r strategaeth yn manylu ar yr union bethau sydd angen eu cyflawni a'r gweithredu sydd ei angen.

Materion amgylcheddol yng Nghymru

Yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi a disgrifio materion amgylcheddol pwysig sy'n wynebu'r wlad. Mae'r adroddiad amgylcheddol hwn yn archwilio sut y gall coetiroedd a rheoli coetiroedd gael dylanwad ar y materion hyn yn gadarnhaol neu'n negyddol. Dyma grynodeb o'r darganfyddiadau:

(a) Bioamrywiaeth, fflora a ffawna

Mae Cynulliad Cymru wedi ymroi i rwystro dirywiad bioamrywiaeth. Dangosodd ein hasesiad fod nifer o rywogaethau coetir yn lleihau neu dan fygythiad yng Nghymru. Mae'n annhebygol y bydd Cymru yn gwireddu ei Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ar gyfer ehangu arwynebedd coetir cynhenid Cymru, diogelu coetiroedd hynafol a sicrhau bod coedwigoedd cynhenid (a chynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd y tu fewn i goedwigoedd) mewn cyflwr da. Hefyd, mae'n rhaid mynd i'r afael â nifer o fygythiadau i gynefinoedd a rhywogaethau coetir, megis rhododendron, y wiwer lwyd a cheirw, plâu ac afiechydon, darnio cynefinoedd a newid hinsawdd.

(b) Pridd, dŵr ac aer

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi i godi safon gemegol ac ecolegol dŵr daear, afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordir Cymru, ynghyd â diogelu'r adnodd pridd. Gall gweithredu gwael (megis syrthio coed ac adeiladu traciau) arwain at aflonyddu ac erydu'r pridd, niweidio'r stôr carbon yn y pridd a chreu problemau ansawdd dŵr. Gall coedwigoedd waethygu'r sefyllfa hefyd trwy asideiddio'r pridd a nentydd dŵr croyw'r uchelderau. Fodd bynnag, dylai cymhwyso wan gar ganllawiau arfer da mewn coedwigaeth leihau risg niwed amgylcheddol. Gall coetiroedd yn y mannau cywir, wedi eu cynllunio a'u rheoli'n dda, fod yn help i leihau llygredd hefyd, er enghraifft trwy ddefnyddio stribedi byffer i rwystro dŵr-ffo amaethyddol rhag llifo i'r nentydd. Mae gan goetiroedd rôl fechan ond pwysig i'w chwarae hefyd i leihau bygythiad llifogydd, sydd ar hyn y bryd yn costio £70 miliwn i'r wlad bob blwyddyn.

Mae coed trefol yng Nghymru yn amsugno cyflenwadau mawr o lygredd gronynnol a sylffwr deuocsid sy'n helpu i oedi marwolaethau a rhwystro mynediadau i'r ysbytai oherwydd ansawdd aer gwael. Gellir cynyddu'r manteision hyn trwy blannu rhagor o goed yn yr ardaloedd trefol.

Y prif fater i goedwigaeth yw sicrhau bod gweithrediadau coedwig yn cwrdd â safonau arfer da; a dod o hyd i ffyrdd i annog perchnogion tir i ddefnyddio coed i wella ansawdd dŵr, lleihau peryglon llifogydd a gwella ansawdd aer yr ardaloedd trefol.

(c) Ffactorau ynghylch yr hinsawdd

Mae gan Gymru dargedau heriol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac mae gan goetiroedd ran fechan ond pwysig i'w chwarae. Gallant helpu mewn dwy ffordd, yn gyntaf trwy amsugno carbon mewn planhigion, pridd a chynnyrch coed ac yn ail, trwy gynhyrchu tanwydd coed (sydd bron â bod yn garbon niwtral) neu gynnyrch coed sy'n cymryd lle deunyddiau sy'n defnyddio llawer o ynni. Mae defnyddio cynnyrch coed cartref yn lle cynnyrch sy'n cael ei fewnforio hefyd yn lliniaru ymelwa o goedwigo anaddas y tu allan i'r DU a'r UE, ac yn lleihau'r pellter sy'n rhaid i goed deithio o'u ffynhonnell i'r man lle meant yn cael eu defnyddio.

Beth bynnag a wnawn nawr i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae hinsawdd Cymru yn mynd i newid dros y blynyddoedd nesaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi i sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle i fynd i'r afael â'r effeithiau hynny. Un o'r materion coedwigaeth mwyaf pwysig yw cymryd camau i wella gobeithion coetiroedd a choed presennol i oroesi'r newidiadau yn yr hinsawdd debygol a'r cynnydd yn nifer y plâu a'r afiechydon. Mae hyn yn bwysig ar gyfer sicrhau cyfanrwydd yr adnodd, ac yn bwysig hefyd i helpu bioamrywiaeth y coetiroedd i wrthsefyll newid hinsawdd - os ydyw'r coetiroedd yn cilio neu'n newid yn sylweddol, yna bydd y fioamrywiaeth ynddynt o dan fygythiad. Mae sicrhau gwytnwch coetiroedd hefyd yn bwysig ar gyfer hamddena yn y coetiroedd, tirlun a busnesau'r coetiroedd.

Yn ail, mae gan goetiroedd a choed eu rôl i leihau'r effeithiau ar y ddynoliaeth. Gall coetiroedd a choed gynnig hamddena dan gysgod, ardaloedd tymherus claear yn yr ardaloedd trefol a chwarae eu rhan i leihau bygythiad llifogydd.

(d) Poblogaeth ac iechyd pobl

Yn gyffredinol mae iechyd pobol yng Nghymru yn waeth nag y mae yn Lloegr, ac mae'r sefyllfa'n sylweddol waeth yn y Cymoedd a Gogledd Cymru nag yng ngweddill y wlad. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi i ddelio ag anghydraddoldebau iechyd. Gall mynediad o ansawdd dda i ofod gwyrdd, megis coetiroedd, helpu pobl i wella eu hiechyd trwy hamddena, chwaraeon ac ymlacio.

Mae nifer o goetiroedd ar agor i'r cyhoedd yn barod, ond nod y llywodraeth ar gyfer 2020 yw sicrhau bod gan 95% o'r boblogaeth fynediad at lwybr neu lwybr seiclo y gallant gerdded iddo o fewn deng munud, ac i gael 60% o'r bobl i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Mae gan goedwigaeth rôl i'w chwarae wrth gyflawni hyn, trwy greu mynediad addas ac amgylchoedd dymunol.

(e) Tirlun a threftadaeth ddiwylliannol

Mae nifer o nodweddion diwylliannol pwysig, megis safleoedd archaeolegol o fewn ac yn agos at goetiroedd trwy Gymru, ac mae'n rhaid eu diogelu. Mae coetiroedd, gwrychoedd a choed hefyd yn cyfrannu at dirluniau amrywiol ar hyd y wlad. Dylai cynllunio coetiroedd anelu at gyfrannu'n gadarnhaol at olygfeydd a chymeriad Cymru, mewn modd sy'n adlewyrchu cymeriad unigryw rhannau gwahanol y wlad. Mae angen gwell diogelwch a rheolaeth ar goetiroedd hynafol a choed unigol sydd efallai o arwyddocâd diwylliannol eu hunain.

(f) Asedau materol

Mae coetiroedd a choed yn cynnig ffynhonnell bwysig o ddeunydd adnewyddadwy ac mae'n rhaid diogelu'r adnodd hwn yn erbyn bygythiadau o or-ecsploetiaeth a cholli coetiroedd, yn ogystal â difrod gan rywogaethau ymosodol, plâu ac afiechydon, a newid hinsawdd. Mae angen cynnal ehangder coetiroedd a chynyddu'r ardaloedd coetir sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, hybu coed fel adnodd y gellir ei adnewyddu, a hybu defnydd effeithlon o danwydd a chemegau mewn gweithrediadau coedwigaeth, cludiant coed, a busnesau coedwigaeth. Gallwn wneud cynnydd penodol wrth annog defnyddio coed yn y diwydiant adeiladu. Fel y crybwyllwyd uchod, mae mwy o ddefnydd o gynnyrch coed cartref yn lle cynnyrch wedi ei fewnforio yn lliniaru hefyd yn erbyn ymelwa o goedwigaeth amhriodol y tu allan i'r DU a'r UE, ac mae'n lleihau'r pellter sy'n rhaid i'r coed deithio o'u ffynhonnell i'r man lle maent yn cael eu defnyddio.

Dewisiadau amgen i *Goetiroedd i Gymru*

Edrychwyd ar effeithiau amgylcheddol posibl pedwar cynllun amgen i'r SciG arfaethedig. Yr amodau a osodwyd oedd y byddai'n rhaid i'r senarios amgen gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU ar gyfer coedwigoedd cynaliadwy, Strategaeth Coedwigaeth yr UE a Chynhadledd y Gweinidogion ar ddiogelu Coedwigoedd Ewrop, rhaid eu bod yn fforddiadwy, a rhaid iddynt allu trosglwyddo o leiaf rhai o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y senarios amgen a ystyriwyd oedd:

- *Senario 1: Uchafu diogelwch a chryfhau treftadaeth naturiol a diwylliannol:* Yn y senario hwn, mae gan bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru bwyslais sylweddol ar gryfhau bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol, gan ehangu coetiroedd brodorol yn sylweddol. Dim ond pan mae ystyriaethau amgylcheddol yn caniatáu hynny y bydd gweithgareddau eraill yn y coetiroedd, megis hamddena neu gynaeafu coed, yn bosibl. Dangosodd ein hasesiad y byddai'r senario hwn yn gweithredu blaenoriaethau bioamrywiaeth, pridd, dŵr ac aer yn dda, ond y byddai'n methu cyflawni targedau'r llywodraeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i gynyddu mynediad i ofod gwyrdd. Byddai hefyd yn methu cyrraedd blaenoriaethau economaidd a datblygu gwledig y Llywodraeth (ni chafodd ei ystyried yn yr AAS).
- *Senario 2: Uchafu gweithredu cymunedol a datblygiad economaidd lleol:* Yn y senario hwn, gofynnir i berchnogion coetiroedd gyrraedd y safonau amgylcheddol isaf yn unig. Yn hytrach, mae gan bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru bwyslais cryf ar hybu hamddena, tirlun, gweithredu cymunedol a'r defnydd o goed gan ddynion busnes lleol, ac mae cefnogaeth y Llywodraeth i dyfu coed yn cael ei dynnu'n ôl. Dangosodd ein hasesiad bod y senario hwn yn fygythiad sylweddol i fioamrywiaeth, a'i fod yn methu trosglwyddo bwriad y Llywodraeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'n bosibl mai effaith niwtral fyddai ar amgylchedd y dŵr, ac effaith cadarnhaol cymedrol ar amgylchedd y pridd o ganlyniad i leihad mewn torri coed er mwyn clirio.
- *Senario 3: Uchafu cynhyrchu coed a lliniaru newid hinsawdd:* Yn y senario hwn unwaith eto dim ond y safonau amgylcheddol isaf sy'n rhaid i berchnogion coetiroedd eu cyrraedd. Yn hytrach, mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwyslais cryf ar gynhyrchu coed a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Dangosodd ein hasesiad bod y senario hwn yn cynnig bygythiad cymedrol i fioamrywiaeth, a bygythiad cymedrol i

amgylchedd y dŵr a'r pridd. Bydd ambell risg hefyd i fynediad gofod gwyrdd, tirlun a threftadaeth ddiwylliannol.

- *Senario 4: SCiG 2001 sy'n bodoli eisoes:* Dangosodd ein hasesiad y byddai'r senario hwn yn fuddiol ar fwy nag un mater ond roedd yn fygythiad i fioamrywiaeth gan nad oedd newid hinsawdd wedi cael ei ystyried. Roedd hefyd yn methu trosglwyddo amcanion y Llywodraeth i wella ansawdd dŵr ac aer a lleihau risg llifogydd.

Gwersi i'w dysgu o'r senarios amgen

Roedd archwilio'r dewisiadau amgen i'r SCiG arfaethedig wedi tanlinellu pwysigrwydd ymdriniaeth gytbwys, gan osgoi hybu bwriad un polisi penodol ar draul un arall. Roedd hefyd yn glir bod angen adolygu'r SCiG presennol er mwyn ystyried materion megis newid hinsawdd, risg llifogydd ac ansawdd dŵr.

Crynodeb o effeithiau arwyddocaol tebygol y SCiG

Cynhaliwyd yr AAS drwy asesu pob darn cydrannol o'r SCiG yn erbyn rhestr o amcanion amgylcheddol er mwyn gweld os oedd cynnig yr SCiG dan sylw yn debygol o gael effaith cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Ar y cyfan, tynnwyd yr amcanion amgylcheddol o Strategaeth Amgylcheddol Cymru.

Fel y dangoswyd yng nghorff yr Adroddiad Amgylcheddol hwn, mae ein hasesiad wedi darganfod y bydd y SCiG yn cael effaith cyffredinol cadarnhaol ar yr amcanion amgylcheddol. Fodd bynnag, amlygwyd sawl mater y bydd angen eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau y bydd unrhyw risg o niwed amgylcheddol yn cael ei leihau. Mae'r canfyddiadau o dan bob un o benawdau bras yr AAS yn cael eu dangos isod:

Crynodeb o ganfyddiadau'r asesiad amgylcheddol strategol:

	Prif ganfyddiadau
(a) Bioamrywiaeth, fflora a ffawna	Mae gan y SCiG botensial i wneud cyfraniad pwysig wrth ddiogelu a chryfhau bioamrywiaeth coetiroedd yng Nghymru. Mae'n blaenoriaethu rheolaeth coetiroedd cynaliadwy er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried wrth gynllunio rheolaeth coetiroedd. Mae ehangu coetiroedd trwy blannu a newid o gonifferau hefyd yn flaenoriaeth gan gynnwys ehangu er mwyn gwella cysylltedd cynefinoedd. Mae hefyd yn cynnwys camau i gwrdd â'r bygythiadau i iechyd a chyfanrwydd tiroedd coed brodorol. Mae manteision tebygol y strategaeth ar gyfer bioamrywiaeth yn cael ei dymheru'n gymedrol yn unig gan amcanion i gynyddu trafnidiaeth ymwelwyr. Mae potensial i risg niwed o ganlyniad i arfer coedwigo gwael (h.y. y rhai nad ydynt yn cwrdd â SCDU). Fodd bynnag mae pob amcan sydd ynghlwm â chynhyrchu coed yn cynnwys yr amod bod ei reolaeth i SCDU ac o ganlyniad yn ystyried bioamrywiaeth. Yn wir, mewn sawl achos, bydd rhyw elfen o reolaeth ar gyfer coed yn llesol. Yn gyffredinol, gallwn ddisgwyl y bydd y cynigion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol i fioamrywiaeth Cymru. Yn ychwanegol, gall defnydd cynyddol o goed cartref liniaru'r colledion bioamrywiol sy'n ganlyniad i ymelwa o goedwigo amhriodol y tu allan i'r DU a'r UE.

(b) Pridd, dŵr ac aer	Mae safonau stiwardiaeth amgylcheddol uchel yn flaenoriaeth i'r SCiG arfaethedig, ac mae'n cynnwys defnyddio coetiroedd a choed fel ateb i broblemau pridd, dŵr ac aer. Rydym yn disgwyl y bydd y strategaeth yn arwain at enillion cymedrol wrth ddiogelu pridd ac ansawdd dŵr yng Nghymru (nid enillion mawr, gan fod coedwigaeth yn ffordd o ddefnyddio'r tir sy'n gymharol isel ei effeithiau.) Mae hefyd yn cynnig potensial lleihau risg llifogydd a gwella ansawdd aer ardaloedd trefol. Dylid lleihau'r risg o niweidio'r amgylchedd o ganlyniad i safonau gweithrediadau coedwigaeth gwael trwy sicrhau cymhwysiad eang o SCDU a chanllawiau cysylltiedig.
(c) Ffactorau hinsawdd	Dylai cynigion y SCiG helpu mewn ffordd fechan ond pwysig i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae'n annog cynhyrchu coed a thanwydd coed lle nad yw hynny'n gwrthdaro gydag amcanion eraill megis diogelu stoc garbon y pridd, iechyd y coetiroedd, bioamrywiaeth a hamdden. Gan fod cynhyrchu coed o reidrwydd yn cael ei liniaru gan amcanion amgylcheddol a chymdeithasol eraill, mae'r cyfraniad i leihau allyriadau rywfaint yn llai ag y byddai fel arall. Mae'r strategaeth fodd bynnag yn cynnwys gweithrediadau pwysig i liniaru effaith newid hinsawdd ar gynefinoedd a rhywogaethau coetiroedd, i reoli risg llifogydd a chreu ardaloedd tymherus claear yn yr ardaloedd trefol. Yn ychwanegol, gall defnydd cynyddol o gynnyrch coed cartref yn lle cynnyrch a fewnforiwyd liniaru ymelwa o goedwigo amhriodol y tu allan i'r DU a'r UE, a lleihau'r pellter sy'n rhaid i'r coed deithio o'u ffynhonnell i'r man lle meant yn cael eu defnyddio.
(ch) Iechyd Pobl	Nid yw'r SCiG arfaethedig yn cynnwys unrhyw gynigion sy'n fygythiad i iechyd pobl, ac mae yn cynnwys cynigion i wella ansawdd a mynediad i goetiroedd er mwyn hamddena, chwaraeon ac ymlacio. Mae'r strategaeth hon yn annog canolbwyntio ar ardaloedd lle mae amddifadedd iechyd, ac ar ardaloedd trefol lle gall gwell mynediad annog pobl i gerdded neu seiclo i'r gwaith. Disgwyliwn iddo wneud cyfraniad cymedrol i fynd i'r afael â materion iechyd yng Nghymru.
(d)Tirlun a threftadaeth	Mae diogelu a gwella nodweddion tirlun a threftadaeth yn flaenoriaeth uchel i'r SCiG arfaethedig, gan gynnwys diogelu coetiroedd a choed unigol hynafol. Ambell ganlyniad, os o gwbl, sy'n debygol o gael effaith andwyol ar dirlun a threftadaeth, yn enwedig o ganlyniad i'r ymroddiad i leihau dibyniaeth ar dorri coed er mwyn clirio mewn ardaloedd cynhyrchiol o'r goedwig. Disgwyliwn wneud cyfraniad pwysig i'r materion hyn.
(dd) Asedau Materol	Mae rheolaeth coetiroedd a choed cynaliadwy yn rhagflaenydd hanfodol i weithredu'r strategaeth. O ganlyniad, mae hefyd yn cynnig anogaeth frwd i'r angen i gynaeafu coed o Gymru. Tra bod hyn yn awgrymu cynyddu'r defnydd o adnoddau (tanwydd), byddai defnyddio'r coed fel adnodd y gellir ei adnewyddu (ac un lleol yn hytrach nag un a fewnforiwyd) o fudd net pwysig i Gymru. Mae hyn yn arbennig o wir os defnyddir y coed i adeiladu yn lle adnoddau sy'n defnyddio mwy o ynni ac nad ydynt yn adnewyddadwy, megis concrid a dur.

Mesurau lliniaru angenrheidiol

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol yn yr asesiad o'r SCiG. Fodd bynnag, roedd yr asesiad wedi codi nifer o bwyntiau y dylid eu hystyried yn flaenoriaeth uchel wrth

weithredu'r strategaeth er mwyn lleihau'r risg o niweidio'r amgylchedd a thrwy hynny, ei gryfhau:

- Sicrhau gymaint ag sy'n bosibl bod gweithrediadau coedwigaeth yng Nghymru yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU a'i ganllawiau cysylltiedig (yn enwedig y canllawiau'n ymwneud â bioamrywiaeth, pridd, dŵr, treftadaeth a newid hinsawdd).
- Cynyddu'r ardal o goetir sy'n cael ei rheoli at Safon Coedwigaeth y DU a'r ardal sy'n derbyn tystysgrif Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.
- Gweithredu'n ddigonol er mwyn lleihau effaith newid hinsawdd ar goetiroedd brodorol, rhywogaethau coetiroedd a choetiroedd nad ydynt yn rhai cynhenid. Mae hyn i gynnwys ehangu coetiroedd cynhenid yn sylweddol, yn enwedig mynd i'r afael â'r lefel uchel o ddarnio sydd yn adnodd y coetiroedd brodorol, ehangu ardal coetiroedd brodorol sy'n cael eu rheoli'n dda a gwella gallu'r coetiroedd brodorol i addasu o ganlyniad i newid hinsawdd.
- Cymryd camau sylweddol i sicrhau bod ehangder coedwigoedd a'i reolaeth yn cyfrannu tuag at wella ansawdd dŵr ac nad ydyw'n gwaethygu asideiddio yn yr ucheldiroedd.
- Delio'n ddigonol gyda'r bygythiadau i goetiroedd gan gynnwys ceirw, rhywogaethau ymosodol a phlâu ac afiechydon.
- Sicrhau parthu digonol fel nad yw trafnidiaeth ymwelwyr neu weithrediadau coedwigaeth yn niweidio safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiol rhyngwladol, Cymreig neu leol nac yn niweidio priddoedd dan fygythiad.
- Canolbwyntio ar welliannau mynediad a fydd yn helpu pobl i gerdded neu seiclo i'r gwaith.
- Adolygu gweithdrefnau presennol asesu effaith amgylcheddol Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd (ar gyfer Ystâd Coetir y Cynulliad) a Chynlluniau Rheoli Coetiroedd (ar gyfer coetiroedd eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus) er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol. Dylid cymryd gofal arbennig i asesu'r holl gynlluniau ar gyfer coetiroedd sydd oddi fewn neu wrth ymyl safleoedd Ewropeaidd. (safleoedd SAC, SPA a Ramsar).

Monitro effeithiau amgylcheddol y strategaeth

Yn y SCiG arfaethedig mae amlinelliad o fframwaith fonitro, ac mae mwy o fanylion yn Atodiad E. Gwelodd yr asesiad hwn bod y fframwaith fonitro yn ddigonol, ond cynigir yr awgrymiadau hyn hefyd:

- Sicrhau bod asideiddio yn cael ei gynrychioli'n ddigonol yn y dangosydd Ansawdd Dŵr.
- Sicrhau bod maint clwt coetiroedd brodorol yn cael ei gynnwys yn ddigonol yn y dangosydd Coetiroedd a Choed.
- Sicrhau bod difrod o ganlyniad i wiwerod, ceirw a rhododendron yn cael ei gynnwys yn y dangosydd Iechyd a Gwydnwch Coed.
- Sicrhau bod monitro corfforaethol CCC yn cofnodi enghreifftiau o ddifrod amgylcheddol sy'n ganlyniad i arfer coedwigo gwael.

- Sicrhau bod dangosyddion Mynediad neu Hamdden yn edrych ar ba mor hawdd ydyw i gerdded yn y coetiroedd a/neu'r nifer o ymwelwyr coetiroedd sy'n defnyddio'r coetiroedd i fynd i'r gwaith.

Datblygiadau pellach *Coetiroedd i Gymru*

Yn dilyn cyhoeddi'r SCiG diwygiedig, bydd CCC ar ran LlCC, yn datblygu nifer o sefyllfaoedd polisi coedwigaeth i ddatblygu manylion y strategaeth ymhellach. Bydd y mesurau lliniaru a chryfhau arfaethedig yn cael eu cynnwys ynddynt.

Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar yr Adroddiad Amgylcheddol hwn. Cysylltwch â ni yn y cyfeiriadau sydd y tu fewn i'r clawr. Gellir gweld y crynodeb hwn, yr Adroddiad Amgylcheddol technegol llawn (yn Saesneg yn unig) a'r strategaeth Coetiroedd i Gymru derfynol (dwyieithog) yn www.forestry.gov.uk/website/fchomepages.nsf/hp/Wales.